

## HALL, GEORGE HENRY (1881 - 1965), yr Is-iarll Hall o Gwm Cynon cyntaf, gwleidydd

**Enw:** George Henry Hall  
**Dyddiad geni:** 1881  
**Dyddiad marw:** 1965  
**Priod:** Alice Martha Hall (née Walker)  
**Priod:** Margaret Hall (née Jones)  
**Rhiant:** Ann Hall (née Guard)  
**Rhiant:** George Hall  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gwleidydd  
**Maes gweithgaredd:** Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol  
**Awdur:** Walter Thomas Morgan

Ganwyd 31 Rhagfyr 1881 ym Mhenrhiwceibr, Aberpennar, Morgannwg, mab George Hall, glöwr (bu farw 1889) brodor o Marshfield, swydd Gaerloyw, ac Ann Guard ei wraig (bu farw 1928) a ddaeth o Midsomer Norton ger Radstock, Gwlad-yr-Haf. Addysgwyd ef yn ysgol elfennol Penrhiwceibr, ond bu raid iddo ymadael â'r ysgol yn 12 oed i weithio yng nglofa Penrhiwceibr er mwyn helpu'i fam weddw a adawyd gyda theulu niferus i'w gynnal. Dyna'r unig addysg ffurfiol a gafodd, ond manteisiodd ar ddamwain a gafodd yn y gwaith, a'i cadwodd gartref am ysbaid hir, i ddarllen yn helaeth, ac i'w addysgu'i hun. Gweithiodd wrth y ffâs tan 1911, pryd y penodwyd ef yn bwyswr ar ran y gweithwyr ac yn gynrychiolydd lleol i'r South Wales Miners' Federation. Yn 1908 enillasai sedd ar gyngor dosbarth Aberpennar, yr aelod Llafur cyntaf i gynrychioli ward Penrhiwceibr. Bu'n aelod o'r cyngor am 18 mlynedd gan fod yn gadeirydd iddo ac i'r pwyllgor addysg. Yn etholiad cyffredinol 1922 etholwyd ef yn A.S. dros ddosbarth Aberdâr o fwrdeistrefi Merthyr, gan drechu **C. B. Stanton** y cyn-aelod. Cadwodd y sedd gyda mwyafrifoedd mawr (ddwywaith yn ddi-wrthwynebiad) hyd ei godi i Dy'r Arglwyddi yn 1946. Cafodd swydd Arglwydd Sifil y Morlys yn 1929. Datblygodd yn sylweddol fel gwleidydd rhwng 1931 ac 1935. Cyn hynny arbenigai ar y diwydiant glo, pwnc yr oedd yn feistr arno, ond, oblegid colledion trychinebus y Blaid Lafur yn etholiad 1931, bu raid iddo siarad o'r fainc flaen mewn dadleuon ar amryfal bynciau a oedd gynt y tu allan i faes ei ddiddordeb. Yr oedd yn siaradwr grymus y tu allan i'r Ty, a chofir yn hir am ei frwydr galed yn ne Cymru yn erbyn rheolau'r prawf moddion yn 1934-35. Yn 1940 etholwyd ef yn arweinydd y blaid seneddol Gymreig, ond ymddiswyddodd pan benodwyd ef yn Is-ysgrifennydd Gwladol dros y Trefedigaethau yn llywodraeth Winston Churchill ym mis Mai 1940. Dyrchafwyd ef yn P.C. yn 1942. Bu'n ysgrifennydd ariannol y Morlys, 1942-43, ac yn Is-ysgrifennydd Seneddol dros Faterion Tramor o dan Anthony Eden, 1943-45. Pan ffurfiwyd y llywodraeth Lafur yng Ngorffennaf 1945 enwyd ef yn Ysgrifennydd gwladol dros y Trefedigaethau nes ei benodi'n Brif Arglwydd y Morlys yn Hydref 1946. Yr oedd yn hoff iawn o'r llynges ac yr oedd yn hapus yn y swydd, ond oherwydd ei fod yn heneiddio a'i iechyd yn fregus penderfynodd ymdeol ym Mai 1951. Bu'n ddirprwy-arweinydd yr arglwyddi Llafur hyd diwedd 1953, pan, i bob pwrpas, y daeth ei yrfa wleidyddol i ben.

Bu'n aelod ardderchog dros ei etholaeth. Yr oedd yn barod iawn ei gymwynas, yn gwrtais ac yn hawdd mynd ato. Gwnâi ei orau glas bob amser i amddiffyn ac achub cam ei etholwyr. Cofiai pobl Aberdâr yn ddiolchgar iawn am ei ymdrechion i ddenu diwydiannau newydd i'r ardal yn nyddiau du'r dirwasgiad. Yn 1937 darbwylodd gwmmi newydd Aberdare Cables i sefydlu ei ffatri yn Aberdâr a gwahoddwyd ef yn y diwedd i fod yn un o'r cyfarwyddwyr. Diolch yn bennaf i'w ymdrechion ef sefydlwyd ffatrioedd Royal Ordnance yn Robertstown (Tresalem) a'r Rhigos yn 1940, ac yn 1945 daeth Cwmni Masnachol Hirwaun i fod. Yn sgîl y datblygiadau hyn daeth Aberdâr yn ganolfan diwydiannau ysgeifn, bendith amhrisiadwy i dref a ddibynasai'n ormodol ar lo yn y gorffennol.

Cafodd raddau anrhyd. LL.D. gan Brifysgolion Birmingham yn 1945 (o law Anthony Eden, y Canghellor) a Chymru yn 1946. Bu'n aelod ffyddlon o'r Eglwys yng Nghymru drwy gydol ei oes, ac etholwyd ef ar ei Bwrdd Llywodraethol.

Bu'n briod ddwywaith, (1) â Margaret merch William Jones, Ynys-y-bwl, 12 Hydref 1910. Bu hi farw 24 Gorffennaf 1941. O'r briodas hon yr oedd dau fab; olynodd y naill ei dad yn Is-iarll a lladdwyd y llall, is-liftenant yn y llynges, 11 Mai 1942; (2) ag Alice Martha, merch Ben Walker o Brinklow, Rugby, yn 1964. Yr oedd hi'n aelod o gyngor sir Caerlwr. Bu ef farw yn ysbty Caerlwr, 8 Tachwedd 1965.

### Awdur

**Walter Thomas Morgan**, (1912 - 1990)

### Ffynonellau

*Aberdare Leader*, 13 a 20 Tachwedd 1965

*The Times*, 9 Tach

*Who was who?*

*Burke's* €| *Peerage, Baronetage, and Knightage*

*Mynegai Bywgraffyddol W. W. Price*

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **George Henry Hall**

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q5540460**

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>



Arddull APA



Morgan, W. T., (1997). HALL, GEORGE HENRY (1881 - 1965), yr Is-iarll Hall o Gwm Cynon cyntaf, gwleidydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 6 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-HALL-HEN-1881>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Yn ddiogel gan  
Llywodraeth Cymru  
Secured by  
Welsh Government